

## JONES, WILLIAM OWEN (1861 - 1937), gweinidog 'Eglwys Rydd y Cymry,' Lerpwl

**Enw:** William Owen Jones  
**Dyddiad geni:** 1861  
**Dyddiad marw:** 1937  
**Rhiant:** Ellen Jones (née Hughes)  
**Rhiant:** Richard Jones  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog 'Eglwys Rydd y Cymry,' Lerpwl  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Idwal Lewis

Ganwyd 7 Ebrill 1861, ym Mhenbryn, Chwilog, yn fab i Richard Jones, amaethwr, ac Ellen Hughes. Addysgwyd ef yn ysgolion Llanystumdwy, Holt, a Chlynnog. Yn Holt dechreuodd bregethu, ac aeth i Goleg y Bala, oddi yno i Goleg Bangor, ac i Goleg S. Ioan, Caergrawnt, a graddio (1890) gydag anrhydedd mewn athroniaeth. Yn 1890 derbyniodd alwad eglwys Methodistaidd Calffaidd Waunfawr, Arfon. Ymhen pum mlynedd symudodd i eglwys Chatham Street, Lerpwl, a threuliodd bum mlynedd yno. Daeth yn un o arweinwyr ei enwad, yn bregethwr sasiwn, ac ysgrifennai'n ysgolheigaidd i'r cyfnodolion. Dygwyd cyhuddiadau yn ei erbyn, a barodd iddo adael y cyfundeb (1901), a chychwyn mudiad yn dwyn yr enw ' Eglwys Rydd y Cymry,' yn Hope Street, gyda 450 o aelodau, oddeutu eu hanner wedi ymadael o eglwys Chatham Street gyda'r gweinidog. Am rai misoedd ceid cynulleidfaoedd yn rhifo'n agos i ddwy fil, a chododd yr aelodaeth nes cyrraedd yn agos i ddeuddeg cant. Sefydlwyd canghennau ar y ddau tu i afon Merswy, codwyd capeli; ond daeth cyfnewidiad yng nghwrs amser a chaewyd nifer o'r capeli. Yn 1920, ymunodd W. O. Jones a'i bobl â'r Annibynwyr, a daliodd i ofalu am eglwys Canning Street. Yn fuan wedi sefydlu'r ' Eglwys Rydd ' cychwynwyd misolyn, *Llais Rhyddid*, gyda W. O. Jones yn olygydd. Daeth y *Llais* allan yn gyson o 1902 hyd 1920, yn fisol hyd 1912, wedi hynny'n chwarterol. Bu farw yn Lerpwl, 14 Mai 1937.

### Awdur

Idwal Lewis

### Ffynonellau

*Y Brython*, 27 Mai 1937

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734691](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Lewis, I., (1953). JONES, WILLIAM OWEN (1861 - 1937), gweinidog 'Eglwys Rydd y Cymry,' Lerpwl. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-OWE-1861>

Grannu

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddi gan  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government